

Gadewch i ni drafod...

Rhoi aren fel rhoddwr byw, beichiogrwydd a ffrwythlondeb

Merched sy'n rhoddwyr

Os ydych chi wedi ystyried bod yn rhoddwr byw, ond yn bwriadu cael plant yn y dyfodol, efallai eich bod wedi bod yn meddwl tybed a allai rhoi aren effeithio ar eich ffrwythlondeb, eich beichiogrwydd, y geni a'r babi. Bwriad yr wybodaeth yn y daflen hon yw cynnig arweiniad cyffredinol a dylech ei defnyddio ar y cyd â'ch tîm asesu i'ch helpu i benderfynu ai rhoi yw'r peth iawn i chi (neu'r peth iawn i chi ar hyn o bryd).

A fydd rhoi aren yn effeithio ar fy ngallu i feichiogi?

Na. Ni ddylai rhoi aren effeithio ar eich siawns i feichiogi.

A ydy menywod eraill sydd wedi rhoi aren wedi beichiogi'n llwyddiannus wedyn?

Ydynt. Mae llawer o fenywod wedi cael babis ar ôl rhoi aren heb i'r ffaith eu bod wedi rhoi aren gael unrhyw effaith ar eu beichiogrwydd. Yn gyffredinol, efallai bod menywod yn dewis aros tan eu bod wedi gorffen cael teulu cyn bod yn rhoddwyr byw. Mae hyn am resymau ymarferol, yn ogystal â

rhesymau iechyd. Mae ymchwil yn y maes hwn yn gyfyngedig, ond mae'n hollbwysig trafod y risgiau posibl yn ofalus a chynnig gwasanaeth cwnsela i osgoi risg ddiangen i unrhyw fenyw o oedran geni plentyn sy'n bwriadu rhoi. Rydym yn argymhell bod pob menyw sy'n dod yn feichiog ar ôl rhoi aren yn gweld ei tîm gofal yn rheolaidd gydol y beichiogrwydd er mwyn cadw llygad ar ei phwysedd gwaed, sut mae'r aren yn gweithio a lles y babi.

A fydd rhoi aren yn achosi risg ychwanegol i mi yn ystod beichiogrwydd neu wrth eni?

Yng nghyswllt y mwyafrif o fenywod, na. Ond, mae rhai astudiaethau'n awgrymu bod mwy o risg o bwysedd gwaed uchel ar ei ben ei hun ac o gyneclampsia (pwysedd gwaed uchel gyda phrotein yn yr wrin).

Pan mae menywod yn feichiog, gan amlaf mae'r arennau a'r systemau draenio (wreter) yn llacio ac yn ymestyn oherwydd hormonau a'r babi sy'n tyfu. Hydroneffrosis yw'r enw ar hyn. Fel arfer nid oes dim canlyniadau i'r newidiadau hyn ac mae popeth yn mynd yn ôl fel yr oedd ar ôl i'r babi gael ei eni. Os mai'r aren chwith sydd wedi'i rhoi, mewn theori, mae risg na fydd gymaint o ddraenio

o'r aren dde sydd ar ôl ac efallai y bydd angen triniaeth ar gyfer hyn. Credir bod y siawns o hyn yn digwydd yn fach iawn.



A fydd rhoi aren yn effeithio ar iechyd y babi?

Nid yw'n ymddangos fod rhoi aren yn cael effaith negyddol ar y babi. Mae'r babi yn dal i dyfu'n normal, ac nid oes dim mwy o risg y bydd y babi'n cael ei eni'n gynnar (cynamseroldeb) neu drwy doriad cesaraidd.

Ar ôl rhoi aren, am ba hyd rydych chi'n awgrymu y dylwn i aros cyn ceisio beichiogi?

Mae tynnu aren yn llawdriniaeth fawr. Rydym yn awgrymu eich bod yn aros tan eich bod wedi dod atoch eich hun yn llawn ac yn ymgymryd â'ch holl weithgareddau arferol eto. Mae'n arferol aros am o leiaf 6 mis cyn beichiogi.

Yn y DU, mae pob rhoddwr yn cael ei weld yn rheolaidd er mwyn cadw llygaid ar ei sefyllfa, ac rydym yn casglu gwybodaeth am unrhyw broblem iechyd sy'n codi. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am unrhyw feichiogrwydd, i gryfhau ein dealltwriaeth o unrhyw risgiau a helpu menywod i benderfynu pryd i roi yn y dyfodol.

Dynion sy'n rhoddwyr

A fydd rhoi aren yn effeithio ar fy ngallu i genhedlu plentyn?

Nid oes dim tystiolaeth bod tynnu aren yn effeithio ar allu dyn i genhedlu plentyn (ffrwythlondeb).

Cyf: 'Canllawiau Cymdeithas Trawsblaniadau Prydain/Y Gymdeithas Arennau ar Drawsblannu Arennau gan Roddwyr Byw 2018' <https://bts.org.uk/guidelines-standards/>

NODIADAU

I ddysgu mwy am roi aren fel rhoddwr byw, ewch i organdonation.nhs.uk/livingdonation ffoniwch 0300 123 23 23 neu e-bostiwch enquiries@nhsbt.nhs.uk



Yes I donate
ORGAN DONATION